Mehefin 2008 **Rhifyn 168**

Gorfoleddwn, llawenhawn:
gwag yw'r bedd, a'r nef yn llawn;
rhoddwn ynot ti ein ffydd,
arwr mawr y trydydd dydd.

D. Glyn Lewis

Gair i'n gilydd

Unwaith eto mae'r newyddion yn llawn o sôn am drychinebau naturiol o'r trowynt ym Myanmar i'r daeargryn yn ne-orllewin China.

Fel sydd yn weddol arferol mewn trychinebau o'r fath, y gwan a'r tlawd sy'n dioddef fwyaf. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a fu farw pan darodd Trowynt Nargis arfordir Myanmar yn rhai o'r bobl tlotaf yn y byd ac o'r tlodion hyn yr oedd rhan helaeth ohonynt yn blant neu'n oedrannus gan nad oedd ganddynt y nerth i wrthsefyll y llif marwol a ddaeth yn sgil y trowynt. Yr hyn sy'n gyffredin i'r ddau drychineb ym Myanmar a China yw bod pobl yn marw mewn modd mwyaf dychrynllyd heb fod yna unrhyw fai arnynt.

Wrth glywed yr hanesion a gweld y lluniau dirdynnol mae'n rhaid i ni fel Cristnogion wynebu cwestiynau anodd: ai Duw a achosodd y trychinebau naturiol hyn a ble mae Duw yng nghanol yr holl ddioddef a dinistr?

Wrth gwrs mae yna atebion gwyddonol. Mae'n hysbys i lawer sut mae daeargrynfeydd a throwyntoedd yn cael eu creu. Ond a yw'n deg i ofyn, er enghraifft y cwestiwn: a benderfynodd Duw y dylid cosbi pobl Myanmar a China drwy greu'r fath dinistr yn yr un modd ag y cosbodd Duw'r Hen Destament bobloedd y ddaear drwy'r dilyw?

Wrth weld y lluniau dirdynnol o China tybiaf mai'r wers fan hyn yw nid "Mae Duw wedi digio atoch ac felly wedi creu'r daeargryn fel cosb" ond yn hytrach "Pam mae dyn yn ei ffolineb yn creu trefi mor agos at fawtlin (Fault line) ac os yw hyn yn anorfod pam creu adeiladau mor simsan?" Er mai ardaloedd tlawd sy'n dioddef fel arfer mae yna ddinasoedd cyfoethog fel San Fransisco sydd mewn perygl dirfawr. Mae'r ddinas wedi ei hadeiladu ar y ffawtlin San Andreas ac yn hwyr neu'n hwyrach fe fydd yna ddaeargryn yn creu dinistr enfawr yno. Pan ddigwydd hyn

a fyddwn ni'n ochneidio a thaflu'r bai ar Dduw neu a ddylwn ni resynu at ffolineb dyn wrth iddo barhau i adeiladu mewn ardaloedd mor beryglus.

Ni chredaf fod trychinebau naturiol yn ei hanfod yn arwydd o fethiant Duw nag yn anfad. Mae daeargrynfeydd yn broses o gadw'r ddaear yn fyw ac yn addas at gynnal bywyd. Mae haenen uchaf y ddaear yn treulio dros gyfnod o flynyddoedd trwy erydiad glaw, rhew, gwres ac ati. Felly proses naturiol yw daeargryn i adnewyddu'r haenen uchaf ac felly i gynnal bywyd. Oni bai am hynny fe fyddai'r ddaear yn dd.r i gyd. Problem dyn yw ei fethiant i ddeall y broses a'i derbyn fel rhywbeth anorfod ac anwybyddu synnwyr cyffredin.

Fel y soniais, heblaw am rai eithriadau, mae'r trychinebau hyn, gwaetha'r modd, yn digwydd mewn ardaloedd tlawd. Nid oes fawr o ddewis gan dlodion Bangladesh a Myanmar ond i fyw wrth lan Bae Bengal er ei bod hi'n amlwg fod hyn yn beryglus iawn. Wrth gwrs mae'r sefyllfa yn gwaethygu gyda'r newid hinsawdd sydd 'nawr yn anorfod yn ôl rhan helaeth o'r gwybodusion. Ac mae'r newidiadau hyn yn cynyddu trwy weithgareddau hunanol y gwledydd diwydiannol a chyfoethog.

Yn hytrach na rhoi'r bai ar Dduw am yr holl drychinebau hyn, fe ddylem ni fel Cristnogion godi ymwybyddiaeth pobl i beth sy'n digwydd ac i fod yn flaengar trwy roi cymorth i'r gwledydd sy'n dioddef. Wrth ofyn y cwestiwn 'Ble mae Duw?', yr ateb tybiaf yw bod Duw yn bodoli yn ein hymateb ni fel Cristnogion i'r fath drychinebau.

Y gwir amdani yw bod trowyntoedd a daeargrynfeydd wedi bod yn rhan annatod o weithgareddau naturiol y ddaear am filiynau o flynyddoedd ac mae modd i ryw raddau amddiffyn yn erbyn y gwaethaf o'r rhain. Mae hyn wrth gwrs yn costio arian – arian na all y gwledydd tlotaf ei fforddio. Mae'n rhaid i ni roi pwysau ar lywodraethau i newid eu hagwedd tuag at yr hinsawdd ac i roi cymorth

ymarferol i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd peryglus i'w hamddiffyn rhag y gwaethaf o'r trychinebau hyn.

Yn ôl at y cwestiwn gwreiddiol: pam y mae Duw wedi gadael gymaint o bobl i farw mewn trychinebau yn ddiweddar ym Myanmar a China? Esgus tila yw gofyn y cwestiwn hwn drwy geisio gwyro oddi wrth y gwir anesmwyth mai dyn sydd wedi creu'r sefyllfa lle mae gymaint yn marw mewn trychinebau naturiol. Ein cyfrifoldeb ni fel Cristnogion yw ymdrechu i ddadwneud ffolineb dyn a rhoi cymorth i'r gwan a'r tlawd pan fydd trychineb fel y rhai a ddigwyddodd yn ddiweddar yn taro.

Wyn Hughes

Newyddion

Llongyfarchiadau

- Yr ydym yn llawenhau gydag Anne Davies yn llwyddiant ei mab Dafydd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Enillodd wobr BAFTA am y rhaglen gerddoriaeth orau ar gyfer y teledu. Cyflwynwyd y wobr iddo gan y cerddor Karl Jenkins;
- i Fflur ac Owain Fychan ar enedigaeth Nansi – chwaer i Mari a Lisa ac wyres arall i Nerys Evans, Gwesty'r Marine.

Anfonwn ein cofion ...

- at y rhai sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf: Dilys Evans, Glenys James, Dora Protheroe, Harding Rees a Jonathan Williams (Llangeitho).

Cydymdeimlwn yn ddwys

- â Sinnet Jones sydd wedi colli ei frawd, Bill, o Brynbanadl, Comins Coch;
- â theulu a chydnabod Ivor Jones, Eirianfa, Coedlan y Parc, a fu farw yn 97 oed ar 17 Mai;

- ag Ann Hughes a Ron Lewis ar golli eu chwaer yn Leeds yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau …

- i bawb sy'n wynebu arholiadau dros yr wythnosau nesaf;
- hefyd i blant Hwyl Hwyr a'u harweinyddion a fydd yn treulio penwythnos yng Ngholeg y Bala yn ystod Mehefin.

Pen blwyddi arbennig

- Dymunwn yn dda i Madge Richards, Hafan y Waun ar ddathlu ei phen blwydd yn 100 oed ar 21 Mehefin a Maggie Edwards Llys Hen Ysgol a fydd yn 90 oed ar 29 Mehefin.

Hoffai'r Ysgol Sul ddiolch yn fawr iawn i'r plant a'r rhieni am eu cefnogaeth i'r gweithgareddau a'r ymarferion ychwanegol yn ystod y ddeufis diwethaf a hefyd i'r plant am eu cyfraniad i Wasanaeth y Pentecost.

Rhywbeth i'w ddarllen: Y Goleuad, Cristion a'r Traethodydd

Efallai fod aelodau Capel y Morfa wedi sylwi arnaf bob bore Sul yn dosbarthu copïau o wythnosolyn ein henwad sef y **Goleuad**. Yn wir, erbyn hyn mae'n gyhoeddiad rhannol gyd-enwadol, wyth tudalen i gyd ond gyda'r pedwar tudalen canol yn cael eu rhannu gyda'r papurau enwadol eraill. Yn wir, y rhan hwnnw sydd â'r potensial i fod y mwyaf diddorol gan droi ein gorwelion i gyfeiriadau llawer llai plwyfol.

Wrth gwrs, mae nifer o'n haelodau yn derbyn eu copi yn uniongyrchol drwy'r siop bapur ond ers rhyw ddeg mlynedd yn awr rwyf wedi bod yn derbyn archebion ar ran rhai o'n haelodau. Roedd hynny ar ôl ymgyrch gwerthiant gan y wasg, a minnau mewn eiliad o wendid yn gwirfoddoli. Bu gymaint â 16 yn ei dderbyn trwy fy nwylo ar un amser ond gyda cholli rhai o'n haelodau mae'r rhif i lawr i 10 erbyn hyn. Felly, dyma benderfynu ei bod yn amser cael ymgyrch gwerthiant eto.

Wel pam ei fod yn werth ei gael? Fe allwn yn hawdd roi digon o resymau pam nad yw – fel pob papur newydd mae ganddo ei wendidau. Ond mae'r cryfderau yn bendant yn trechu'r gwendidau. Mae colofn olygyddol gwych ynddo bob wythnos, adolygiadau annibynnol o lyfrau, colofn farddol, homilïau ac arweiniad i wersi'r Ysgol Sul ond yn bwysicach o lawer, cyfle i gadw ein llaw ar bŷls beth sy'n digwydd ym mywyd Cristnogion o'n cwmpas.

Felly, beth am roi archeb i weld beth rydych yn ei feddwl – mae'n cael ei werthu yn y siop am 40c yr wythnos, ond mae ar gael trwy'r capel am 36c (arbediad o dros £2 y flwyddyn!). Os am archebu, cysylltwch â mi.

Hefyd, un arall a welwch bob rhyw ddeufis yn dosbarthu **Cristion** yw David Meirion Jones (Dai Corris). Rydym yn archebu tua 20 drwy Siop y Pethe. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu ymgyrch arbennig i godi gwerthiant Cristion, ymgyrch a fu'n bur llwyddiannus gyda'r gwerthiant wedi codi i ryw 1900. Dyma siawns i ni wneud ein cyfraniad. Mae natur Cristion wedi newid yn llwyr o dan Olygyddiaeth oleuedig Aled Davies. Cylchgrawn cyd-enwadol yw hwn, Cylchgrawn Cymraeg Cristnogol bywiog, lliwgar, llawn, yn cynnwys newyddion, storïau, erthyglau, myfyrdodau, croesair, adolygiadau, cyfweliadau a llawer iawn mwy!

Os byddech yn hoffi gweld copi cyn archebu, mae gennyf nifer o gopïau sbâr am ddim o rifynnau'r llynedd

yma. Felly, beth am weld ac yna archebu? Y gost flynyddol yw £6 - gallwch archebu trwof fi neu Dai Corris.

Tra'r wyf wrthi, soniaf am y **Traethodydd,** sydd wrth gwrs o dan olygyddiaeth ein Bryn Roberts ni (Caerwyn Williams cyn hynny). Mae angen llawer mwy o gefnogaeth ar y chwarterolyn clasurol hwn gyda'i erthyglau ysgolheigaidd darllenadwy iawn. Y gost yw £3 y rhifyn, ac mae ar gael trwy'r siop lyfrau. Bu ymdrech yma yn ddiweddar i ddenu darllenwyr newydd. Nid yw Bryn wedi gofyn i mi i weithredu fel asiant, ond efallai pe bawn yn gallu cael digon o archebion mewnol y byddai'n bosibl cael pris arbennig fel yn achos y Goleuad.

Alun Morris

Amser i Dduw

O Dduw ein Tad nefol,
o gofio mor fawr yw ein breiniau ni,
cofiwn ger dy fron am y rhai sy'n wynebu
anghenion a phroblemau dyrys:
y rhai y mae eu bywyd yn llawn pryderon
am nad ydynt yn dy adnabod di fel Duw cariad;
y rhai y mae eu bywyd yn ddiystyr
am eu bod yn byw i arian a phethau materol yn unig;
y rhai y mae eu bywyd yn drist a thrallodus
am eu bod wedi eu dal yng nghanol rhyfel,
gormes neu drychineb;
y rhai y mae eu bywyd yn unig
oherwydd iddynt golli rhywun annwyl drwy farwolaeth;
y rhai y mae eu bywyd yn unig
oherwydd iddynt golli rhywun annwyl drwy farwolaeth;
y rhai y mae eu bywyd yn anodd
oherwydd afiechyd, tlodi, diweithdra neu anhapusrwydd teuluol.

O'u cofio o'th flaen,
gweddïwn ar iddynt dy deimlo di'n agos
a chanfod cysur a nerth yn dy gwmni.

Elfed ap Nefydd Roberts

Sul y Gymanfa

Cafwyd gwasanaeth cofiadwy ar fore Sul y Pentecost. Braf oedd gweld y capel yn llawn a holl Ysgolion Sul yr ardal yn dod ynghyd. Hyfryd oedd croesawu Martyn Geraint atom a chafwyd cyfraniad arbennig ganddo i'r gwasanaeth.

Yn yr hwyr bu'r Gymanfa Ganu yn llwyddiannus o dan arweinyddiaeth Alan Wynne Jones a llywyddiaeth Bethan Bryn. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant y diwrnod.

Llun y clawr: Y Crist Atgyfodedig, gan He Qi o Brifysgol Nanjing, sef un o artistiaid Cristnogol amlycaf Tseina. Mae ei luniau yn lliwgar a thrawiadol iawn, a thrwy ei waith celf, meddai, mae'n ceisio newid y ddelwedd estron sydd gan Gristnogaeth yn Tseina. Pan ofynnodd offeiriad o Shanghai iddo am furlun ar gyfer ei eglwys, cynigiodd He Qi y llun hwn, ond credai'r offeiriad ei fod yn rhy Tseineaidd gan ofyn i He Qi wneud copi iddo o'r Swper Olaf gan Da Vinci yn ei le. Gwrthododd He Qi, gan ddadlau ei bod hi'n bwysig cyfleu'r neges Gristnogol i bobl Tseina drwy gyfrwng delweddau

ac arddulliau traddodiadol eu gwlad eu hunain. Dim ond felly y gellir sicrhau bod y neges yn bwerus a pherthnasol.

Rheolwr Newydd Morlan

Mae'n anodd credu fy mod, wrth ysgrifennu'r pwt hwn, wedi bod yn gweithio fel Rheolwr Morlan ers tair wythnos. Mae'r amser wedi gwibio heibio a minnau erbyn hyn yn dechrau cyfarwyddo â'r lle a'r ffordd y mae pethau'n gweithio.

Wedi dweud hynny, yr wyf yn dal i ddysgu am y swydd – ac am y Morlan ei hun – ac mae'n siŵr y bydd hynny'n parhau dros yr wythnosau (a'r misoedd!) nesaf. Mae pawb wedi bod yn tu hwnt o groesawgar, ond rhaid diolch yn arbennig i Alun Morris ac Ann Davies am eu cymorth a'u harweiniad yn ystod y cyfnod hwn.

Bu'r wythnosau cyntaf hyn yn rhai prysur, amrywiol a difyr iawn. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd perfformio drama *Bryn Gobaith* gan gwmni *Glass Shot*, cyfarfod agored gan Amnest Rhyngwladol, cyngerdd gan Gôr Gobaith i godi arian i *Médecin Sans Frontières* a Ffair Lyfrau. Tynnwyd un arddangosfa i lawr a gosodwyd un arall ac ynghanol hyn oll, roedd y gweithgareddau wythnosol arferol yn mynd rhagddynt. Braf yw gweld cymaint o drawstoriad o ddigwyddiadau yma, a thrawstoriad o bobl yn eu mynychu. Diddorol hefyd yw gweld sut caiff y neuadd ei thrawsnewid ar gyfer yr holl ddigwyddiadau hyn; mae'n adnodd hyblyg a defnyddiol iawn.

Mynychais fy nghyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Rhaglen ac edrychaf ymlaen at gydweithio hapus wrth i ni baratoi ein Rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cewch glywed mwy am y digwyddiadau hynny maes o law mae'n siŵr.

Yr wy'n ymwybodol iawn fod penodi Rheolwr yn gam pwysig yn natblygiad Morlan, ac fe wnaf fy ngorau i sicrhau bod y lle yn parhau i ffynnu a datblygu. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at sialens y swydd newydd hon ac i ddod i adnabod y rheiny ohonoch sy'n ymwneud â gwaith Morlan ac sy'n cefnogi ei weithgareddau.

Carol Jenkins

Gweddi'r Pentecost



O Dduw, y dychymyg mawr,
sydd â'r gallu i greu syndod a
rhyfeddod ynom yn ddyddiol,
diolchwn nad oes modd
cyfyngu arnat Ti.
Agor ein meddyliau ac
ehanga ein profiadau –
er mwyn i ni dy werthfawrogi
yn well.

O Dduw sanctaidd,
diolch iti am y patrwm clir a roddaist inni i'w ddilyn
ym mywyd Iesu Grist.
Boed i'n bywydau adlewyrchu ei esiampl o gariad di-gwestiwn.
Cymorth ni i chwilio o hyd am y gwirionedd a'r hyn sy'n bur –
a thrwy hynny ganfod brawdgarwch di-ragrith.

O Dduw, y cariad grymus,
boed inni gydnabod ein hangen am ein gilydd;
i barchu cyfraniad pob un at ein dealltwriaeth ohonot Ti.
Dyro inni'r hyder i fentro rhannu ein doniau unigryw
er budd ein heglwys a'n cymdeithas.

Dyro inni dy dangefedd;
Dyro inni dy fendith;
Dyro inni dy faddeuant;
Dyro inni hyder dy Ysbryd Glân
i fentro i fwrlwm bywyd i rannu dy Gariad

Yn enw Iesu Grist,
Amen

Mari Turner

Hel Meddyliau

Mae gen i ffrind sy'n saith mlwydd oed. Peth amser yn ôl ar ôl cael pryd o fwyd gydag ef a'i Nain a Taid fe ddywedodd ei fod am dangos i mi ei le spesial. So bant â ni, fe a fi, dringo rhiw ac wedyn i lawr bancyn digon serth i ryw gwm bach tawel gyda nant yn llifo trwy'r canol. A dyma fe'n dangos yn ei eiriau ef 'y dŵr pur glân' i mi a rhoi peth i mi i'w yfed o'i ddwylo. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn bwriadu adeiladu tŷ iddo'i hyn a byw yno. Pan holais beth oedd yn mynd i'w fwyta, dywedodd ei fod yn mynd i blannu coed afalau ac yfed y dŵr ffres. Tra'r oedd hyn i gyd yn digwydd 'roeddwn i yn hanner gwrando wrth i mi feddwl sut yn y byd 'roeddwn yn mynd i ddringo 'nol lan y bancyn serth. Wedyn troi i weld a oedd ef yn barod i fynd a'i weld ef a'i lygaid yn disgleirio, yn gwenu wrth feddwl am ei gynllun, yn hollol dedwydd. Y fath ddychymig, y fath ddiniweidrwydd, y fath lawenydd. Minnau yn meddwl am broblemau wrth ddringo'r llethr mwdlyd ac yntau yn hollol siriol yn meddwl am rhywbeth hyfryd. 'Roedd popeth mor syml iddo ef, popeth yn bosibl, dim amheuon, dim cymhlethdod. Gwyn ei fyd.

Fe wnaeth yr Iesu ein cymell i 'Dderbyn teyrnas Dduw yn null plentyn.' Ar ôl yr ymweliad gyd fy ffrind ifanc i'r 'lle spesial' mi wn beth oedd yr Iesu ei feddwl.

Diolch i Anne Davies am gychwyn y golofn newydd hon, a hoffem wahodd unrhyw un sydd wedi cael ei ysgogi i feddwl yn sgil digwyddiad, darn o gerddoriaeth, darn o lyfr, eitem yn y newyddion, ac ati, i rannu eu profiadau. Gellir gyrru cyfraniadau at Anne, neu at olygyddion y mis.

CÔR CYTGAN

Morlan, nos Sadwrn, 7 Mehefin

Dyma gôr siambr sydd wedi'i ffurfio ers rhyw 7 mlynedd. Maent yn enillwyr cenedlaethol ac yn mwynhau dod at ei gilydd i ddiddanu cynulleidfaoedd.

Bydd elw'r noson yn mynd at elusen leol.

Newyddion Ebenezer

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol wedi mynd heibio eleni eto. Prif ddiben Cymorth Cristnogol yw helpu pawb mewn angen. Bydd cofio llythrennau'r gair *Cymorth* yn gynhorthwy inni ystyried trueiniaid ein byd. Fe wyddom bod miliynau o drigolion y byd yn newynu, yn dlawd, yn afiach a heb gartrefi. I geisio helpu'r miliynau hyn, gweithreda cymorth Cristnogol yn enw'r Arglwydd Iesu Grist. Yn nameg y Samariad Trugarog, dysg yr Arglwydd Iesu pwy yw'r cymydog iawn a dymuna i ni efelychu'r Samariad er mwyn ein cyd-ddyn.

Gobeithio bydd pawb yn mwynhau'r tywydd hafaidd pryd y daw ac y byddwn yn parhau yn ffyddlon i'r oedfaon. Er bob canmoliaeth am ffyddlondeb, 'nid da lle gellir gwell'. Brynhawn Sul 13 Ebrill a 4 Mai cawsom gwmni dau Grŵp o'r Morfa i gynnal gwasanaeth, y naill dan arweiniad Mrs Ann Davies a'r llall dan arweiniad Dr William Cynfab Roberts, ac mae diolch yn ddyledus iddynt am baratoi oedfaon gwahanol a bendithiol iawn. Yn dilyn yr oedfa ar 4 Mai, dan arweiniad y Parchedig J. E. Wynne Davies, bedyddiwyd Thomas Lewis. mab William a Kate, brawd bach i Daisy May ac ŵyr i Ron a Sylvia Lewis. Wrth lawenhau gyda Ron a Sylvia ar enedigaeth Thomas Lewis, cydymdeimlwn yn ddwys â hwy ar farwolaeth Beryl, chwaer Ron, a fu farw mewn ysbyty yn Leeds ddiwedd mis Ebrill ar ôl cystudd hir. Roedd Beryl yn chwaer hefyd i Ann

a Hughie Hughes, Ael Dinas. Cofiwn am briod Beryl a'r mab a'r perthnasau eraill i gyd yn eu colled a'u tristwch.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd ag Eileen a Sinnett Jones ar farwolaeth brawd Sinnett, sef Bill (Brynbanadl, Comins Coch) yn Ysbyty Treforys ar Sul, 18 Mai. Cofiwn hefyd am ei chwaer Ronwen a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Eleni, tro Ebeneser oedd trefnu Noson Goffi a Stondin Moes a Phryn er budd Cymorth Cristnogol a hynny ar nos Iau, 15 Mai, ynghyd ag aelodau Eglwys St Anne, Capel y Methodistiaid Saesneg a'r Eglwys Gatholig. Bu hon yn noson lwyddiannus iawn ac mae'n rhaid talu diolch i'r chwiorydd a fu'n trefnu'r noson, yn cynorthwyo yn y gegin ac wrth y stondinau, am y cyfraniadau tuat at y stondinau, ac wrth gwrs, i bawb a ddaeth i fwynhau paned o de neu goffi a sgwrs. Gwnaethpwyd elw o £243 at yr achos teilwng hwn: 'Yn gymaint ag a wnaethoch i un o'r rhai bychain hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch.' (Math 25.45).

Mae seddau nifer o'n ffyddloniaid yn wag iawn ar hyn o bryd, ond mae'n dda cael dweud bod Mrs Margaret Morgan adref yn awr ac yn gwella ar ôl ysbaid yn Ysbyty Bronglais a Mrs Betty Davies sydd hefyd yn gwella. Yn anffodus iawn, cafodd Mrs Clariss Pyle ddamwain yn y pentref ar 9 Mai, ac ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais a gorfod aros yno am ysbaid fer, mae hi erbyn hyn yn Ysbyty Tregaron. Cofion gorau atoch i gyd ac erfyniwn am atgyfnerthiad iddynt ac y cawn eu gweld yn ôl gyda ni ar brynhawn Sul yn fuan. Llawenydd yw cael cwmni Mrs Lilian Jenkins yn ôl gyda ni yn yr oedfa wedi ysbaid o salwch ac wedi mwynhau ei phen blwydd pwysig, hefyd Mrs Catherine Jones sydd yn well ac yn ôl gyda ni ar brynhawn Sul. Mae Mrs Laura Rumsey-Williams yng Nghartref Cysgod y Coed, Mr Robert John Davies yng Nghartref Cwmcynfelin, Miss Mair Jones yn Nghartref Allt-y-Mynydd a Mrs Mary Owen a Mr Alwyn Evans a'r ffrinidau eraill yng Nghartref Bodlondeb. Mae Miss Jane

E. Evans (gynt o 3 Porth-y-De, Penparcau) wedi ymgartrefu erbyn hyn yng Nghartref Hafan y Waun, ac yn setlo i lawr yno yn reit dda ac yn mwynhau cael cwmni, ac er ei gwendid, mae Mrs Glenwen Richards yn dal yn siriol dan ofal tyner Dai yn eu cartref yn Heol y Wern. Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau da i chi i gyd!

Y Parch Dafydd H Edwards - yn cyflwyno hanes y llygoden fawr a oedd wedi ceisio cnoi twll yng nghebl yr awyren!

DYDDIADUR Mehefin 2008

GWASANAETHAU'R SUL 10.00am a 6.00pm yn y Morfa; 2.15pm yn Ebeneser

1 Dr Rhidian Griffiths bore a phrynhawn; y Parchedig Raymond Jones gyda'r hwyr
8 y Parch. Ifan Roberts, trwy'r dydd
15 Grŵp Mr Wyn Hughes, bore a phrynhawn; y Parch. J. Tudno Williams, hwyr
22 y Parch John Roberts, trwy'r dydd
29 y Parch Jim Clarke, trwy'r dydd

YSGOLION SUL

Plant: bore am 10.00am
Oedolion: ar ôl gwasanaeth y bore

CYLCH GWEDDI A CHOFFI – bore Mawrth, 10.30

CYFARFODYDD WYTHNOSOL – nos Iau am 7.00

CYMORTH CRISTNOGOL

3 Cinio Bara a Chaws yn festri Capel Seion

Golygyddion y mis hwn yw Ann Hawke ac Arwel Jones. Diolch yn fawr i Laurie Wright am y lluniau. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf o PERTHYN, os gwelwch yn dda, at Ann (ayp@aber.ac.uk) neu Arwel (arwel.jones@llgc.org.uk) erbyn dydd Gwener, 20 Mehefin. Gan nifer o'r golygyddion yn gweithio yn ystod yr wythnos, gofynnwn yn garedig i bawb sicrhau bod yr holl ddeunydd yn llaw'r golygyddion erbyn prynhawn Sul y 22 fan bellaf, fel bod modd cael Perthyn at yr argraffwyr mewn pryd.

SWYDDOGAETHAU Mehefin 2008

Blaenor y Mis Mr Wyn H. Hughes

Porthorion

Morfa: Miss Gwerfyl Pierce Jones, Mr Hywel C Jones, Dr D Huw Owen

Ebeneser: Mrs Catherine Jones

Blodau'r Cysegr

Y Morfa

1 Siân Richards a Hefina Wright
8 Glenys James
15 Mattie ac Enid Jones
22 Dilys Stephens ac Auriel Fenton
29 Nancy Lovatt

Ebeneser

1 Megan J. Evans
8 Glenys Thomas
15 Marian Evans
22 Catherine Jones
29 Megan Morris

Cynorthwywyr Llestri Cymun

2 Mrs Phyllis Jones, Mrs Eluned Morris, Mrs Dilys Stephens, Mrs Blodwen Williams

Cynorthwywyr Ariannol

1 Mr a Mrs Alun Morris
8 Mr E Meirion Morgan a Mr David Harries
15 Mr D Brian Thoams a Mr Davie ??H Evans
22 Mrs Glenys James a Mrs Miriam Garratt
29 Mr a Mrs Merfyn Davies

Tregerddan

29 Dan ofal Mr Geraint L Jones a Miss Gwerfyl Pierce Jones